# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

Dyma'r fersiwn hawdd ei deall o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan fo'r ddogfen yn dweud **ni** neu **ein**, mae hyn yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Testun Trwm**


Efallai bydd rhai geiriau yn anodd eu deall. Mae'r rhain mewn **testun trwm** ac mae esboniad ar gael o dan y gair.

Os oes angen rhagor o wybodaeth am yr adroddiad,

Neu os ydych chi eisiau'r adroddiad mewn fformat arall, fel print bras, rydych chi'n gallu cysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb.



Rydych chi'n gallu ymweld â ni yn y Swyddfeydd Dinesig, yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.



Neu ysgrifennu at,



Cyfeiriad: Y Tîm Cydraddoldeb, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB



Ffôn: 016565 64

E-bost: equalites@bridgend.gov.uk

**Beth yw Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol?**



Dylai pawb gael ei drin yn deg a theimlo yn dda, yn ddiogel, ac wedi ei barchu.



Rydym ni wedi ysgrifennu llyfryn arall o'r enw ein 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol'.



Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr drin pawb yn deg.



Dyma ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol. Mae cynllun yn dweud beth fyddwn ni yn ei wneud i wneud yn siŵr bod pawb yn cael ei drin yn deg a gyda pharch.



**Ein hamcanion cydraddoldeb**

Ar ôl gofyn i bobl am ein cynllun, fe wnaethom ni benderfynu ar 6 **amcan** cydraddoldeb**.**



Amcan yw nod yr ydym ni eisiau ei gyflawni.




Bydd gweithio at 6 nod yn ein helpu i wybod a yw pethau yn fwy teg i bobl.

Ein hamcanion cydraddoldeb yw,

- Addysg
- Gwaith
- Byw yn dda
- Iechyd a lles
- Diogelwch
- Cymryd rhan



**Addysg**



Rydym ni eisiau gweld bod pawb sy’n cael addysg yn rhydd rhag bwlio a **gwahaniaethu.**

Ystyr gwahaniaethu yw trin rhywun yn annheg.



Rydym ni eisiau lleihau **bwlio yn seiliedig ar gasineb** mewn ysgolion. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy ei gwneud yn haws i ysgolion ddweud wrthym ni am unrhyw fwlio sy’n seiliedig ar gasineb a’u helpu i ddatrys unrhyw broblemau.





Bwlio yn seiliedig ar gasineb yw pan fo rhywun yn gwneud rhywbeth i frifo rhywun oherwydd pwy yw ef - er enghraifft, oherwydd ei hil, ei rywioldeb neu ei anabledd.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant yn dysgu am **Black Lives Matter**. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy helpu ysgolion i addysgu plant am Black Lives Matter.



Black Lives Matter (BLM) yw grŵp sy’n gofyn am gymorth i atal pobl dduon rhag cael eu trin yn annheg.



Rydym ni eisiau ei gwneud yn haws i ysgolion a phlant wybod sut i drin pobl yn deg a pham mae’n bwysig trin pobl yn deg.



Byddwn ni yn gwneud hyn trwy ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb i ysgolion, athrawon a disgyblion.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod anghenion oedolion sy'n mynd i gyrsiau dysgu yn eu cymunedau yn cael eu diwallu. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy ofyn i oedolion sy'n dysgu pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw i gymryd rhan mewn cyrsiau yn eu cymunedau.




Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod am **gam-drin domestig** a sut i gael cymorth os yw rhywun yn eu teulu yn eu brifo nhw.

Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gallu addysgu plant beth yw **cam-drin domestig** a phwy sy'n gallu eu helpu.



Cam-drin domestig yw pan fo cariad, neu rywun yn y teulu yn eich brifo neu eich trin yn wael.

**Gwaith**



Rydym ni eisiau i leoedd gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod yn fwy **cynhwysol**.

Mae bod yn gynhwysol yn golygu cynnwys pawb, dim ots pwy yw ef na beth yw ei gefndir.



Rydym ni eisiau i bawb fod yn hapus ac yn iach yn ei waith, a chael cyfleoedd i wneud yn dda yn ei waith, dim ots pwy yw ef na beth yw ei gefndir.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio i ni yn cael yr un faint o arian am y gwaith maen nhw yn ei wneud.

Byddwn ni yn gwneud hyn trwy wybod mwy am bwy sy'n gweithio i ni ac edrych ar faint mae pobl yn cael eu talu.



Rydym ni eisiau helpu pobl yn ein cymunedau i ddod o hyd i waith. Byddwn ni yn darparu cymorth a hyfforddiant i bobl sy’n chwilio am waith yn ein cymunedau.




Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennym ni amrywiaeth eang o bobl yn gweithio i ni. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy annog pobl o lawer o wahanol gefndiroedd i weithio i ni.



Byddwn ni yn gwneud yn siŵr hefyd ein bod ni yn helpu pobl ag anableddau i weithio i ni.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb sy’n gweithio i ni yn gwybod am gydraddoldeb a pham mae’n bwysig. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy hyfforddi ein staff a gweithio gydag eraill fel Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr a Stonewall.

**Safonau byw**



Rydym ni eisiau helpu pobl sy’n byw mewn tlodi.



Mae hyn yn gallu golygu nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer bwyd neu ddillad. Neu efallai nad ydyn nhw’n gallu defnyddio’r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Rydym ni eisiau helpu pobl i **fyw yn annibynnol,** bod ganddyn nhw ddigon o arian a’u bod yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Mae helpu pobl i fyw yn annibynnol yn golygu eu helpu i fyw y bywyd maen nhw ei eisiau, eu bod yn cael cyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn â’u bywyd ac yn cael cymorth pan fydd ei angen arnyn nhw.





Rydym ni eisiau sicrhau bod pobl sy’n gweithio i ni yn ystyried sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar bobl sy’n byw mewn tlodi. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy hyfforddi staff a chynnwys tlodi yn ein **hasesiadau effaith**.



Asesiadau effaith yw ffurflen y mae angen i bobl sy’n gweithio i ni ei llenwi i ddangos y bydd eu penderfyniadau yn sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb sy’n gweithio i ni yn cael digon o arian. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy wneud yn siŵr bod pawb sy’n gweithio i ni yn cael y **cyflog byw gwirioneddol**.



Cyflog byw gwirioneddol yw’r swm sydd ei angen ar bobl i fyw. Mae’n fwy na’r cyflog byw cenedlaethol y mae’r Llywodraeth yn penderfynu arno.



Rydym ni eisiau sicrhau bod plant o deuluoedd heb lawer o arian yn cael prydau ysgol am ddim. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy wneud yn siŵr bod y plant y mae angen prydau ysgol am ddim arnyn nhw yn eu cael a byddwn ni yn darparu parseli bwyd pan fydd angen yn ystod pandemig COVID-19.



Rydym ni eisiau sicrhau bod merched o deuluoedd heb lawer o arian yn cael **cynhyrchion mislif**. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gydag ysgolion i wneud yn siŵr bod cynhyrchion mislif ar gael i ferched am ddim.



Cynhyrchion mislif yw eitemau fel tywelion mislif (neu badiau mislif) a thamponau i ferched eu defnyddio yn ystod eu mislif (neu'r misglwyf).

## Iechyd a lles



Rydym ni eisiau i bobl sy’n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr fyw bywydau hapus ac iach.

Rydym ni eisiau i’r bobl sy’n gweithio i ni fod yn hapus ac yn iach.



Byddwn ni yn gwneud hyn trwy ddarparu hyfforddiant, helpu’r staff â’u hanghenion a ffurfio grwpiau i weld pa gymorth arall y byddem ni yn gallu ei ddarparu.



Rydym ni eisiau i bobl o lawer o wahanol gefndiroedd, fel pobl anabl, pobl hŷn a phobl dduon, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig, gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.



Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gydag eraill fel Halo a Chwaraeon Anabledd Cymru i gynnig gweithgareddau yn ein cymunedau.



Rydym ni eisiau codi ymwybyddiaeth o anableddau cudd yn ein cymunedau ac mewn busnesau.

Byddwn ni yn gwneud hyn trwy hyrwyddo’r Laniard Anabledd Cudd a hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth fel yr wythnos ymwybyddiaeth o fod yn fyddar.





**Diogelwch a pharch**

Rydym ni eisiau i bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod yn ddiogel.

Nid ydym ni eisiau gweld pobl yn poeni am drais neu fwlio.




Rydym ni eisiau i'r bobl yn ein cymunedau drin ei gilydd â pharch.

Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gyda grwpiau yn ein cymunedau, rhoi gwybod i bobl pa gymorth sydd ar gael a chynnal digwyddiadau cymunedol fel bod pobl yn gallu bod yn ffrindiau.



Rydym ni eisiau codi ymwybyddiaeth o **droseddau casineb**.



Byddwn ni yn gwneud hyn trwy ddweud wrth bobl sut maen nhw'n gallu adrodd troseddau casineb, gweithio gyda'r heddlu i gefnogi pobl a threfnu gweithgareddau i hybu ymwybyddiaeth.



Trosedd casineb yw pan fo rhywun yn gwneud rhywbeth i frifo rhywun oherwydd pwy yw ef - er enghraifft, oherwydd ei hil, ei rywioldeb neu ei anabledd.



Rydym ni eisiau dathlu Mis Hanes Pobl Dduon. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gydag ysgolion a chymunedau i gynnal digwyddiadau a rhannu gwybodaeth.



Rydym ni eisiau i bobl deimlo’n ddiogel yn eu cartref a gyda’u teulu.



Byddwn ni yn gwneud hyn trwy godi ymwybyddiaeth o **gam-drin domestig** ac o drais yn erbyn menywod a thrwy helpu pobl sydd wedi cael eu brifo.



Cam-drin domestig yw pan fo cariad, neu rywun yn y teulu yn eich brifo neu eich trin yn wael.



**Cymryd rhan** Mae pobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw ac am y gwasanaethau maen nhw yn eu defnyddio.

Rydym  ni'n credu y dylem ni ofyn i bobl sut byddai ein syniadau ni yn effeithio ar eu bywyd nhw.



Rydym ni eisiau gweld y bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan yn y penderfyniadau rydym ni yn eu gwneud. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy siarad â mwy o bobl a gwneud yn siŵr ein bod ni yn gwneud rhagor o ddogfennau hawdd eu deall.



Rydym ni eisiau i'r bobl sy'n gweithio i ni wybod sut i wneud gwybodaeth yn haws i bobl ei deall. Byddwn ni yn gwneud hyn gyda llyfrynnau sy'n helpu ein staff i ddeall sut i gyfathrebu yn well â phobl sydd efallai yn cael anhawster i ddeall rhai pethau.



Rydym ni eisiau i fwy o bobl â nodweddion sydd wedi eu diogelu yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.




Byddwn ni yn gwneud hyn trwy weithio gyda grwpiau cydraddoldeb yn ein cymunedau a rhannu ein **hymgynghoriadau** â mwy o bobl.



Ymgynghoriad yw pan fyddwn yn gofyn i bobl am eu barn ar y penderfyniadau rydym ni yn eu gwneud.

Rydym ni eisiau helpu i hyrwyddo digwyddiadau cymunedol a chydraddoldeb. Byddwn ni yn gwneud hyn trwy rannu mwy o wybodaeth ar ein **cyfryngau cymdeithasol**. Ein cyfryngau cymdeithasol yw Facebook, Twitter, Instagram a YouTube.